

Crynodeb Gwirio Ansawdd Canolfan Iechyd Porthmadog Dyddiad y gweithgarwch: 16 Mawrth 2021

Dyddiad cyhoeddi: 20 Ebrill 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cofnod o'r Canfyddiadau

Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd dilynol o bell o Ganolfan Iechyd Porthmadog ar 16 Mawrth 2021. Diben y gwiriad hwn oedd cadarnhau'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r argymhellion yn y cynllun gwella a luniwyd yn dilyn yr arolygiad gwreiddiol ar 9 Hydref 2018.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Gwnaethom siarad â dirprwy reolwr y practis yn ystod yr alwad fideo ddilynol, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am ei leoliad.

Crynodeb

Ar hyn o bryd, mae Canolfan Iechyd Porthmadog yn darparu gwasanaethau i tua 4,000 o gleifion yn ardal Gwynedd yng Ngogledd Cymru. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau meddygon teulu a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Ers 1 Hydref 2018, mae'r practis wedi cael ei reoli gan y bwrdd iechyd. Mae'r bwrdd iechyd yn bwriadu uno Canolfan Iechyd Porthmadog â Chanolfan Iechyd Cricieth, a bydd y ddau bractis yn dod yn rhan o Hwb Iechyd Eifionydd.

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn darparu profiad cadarnhaol a gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Gwelsom fod y gwasanaeth wedi gwneud y gwelliannau a nodwyd yng nghynllun gwella'r arolygiad gwreiddiol ac wedi parhau i'w gweithredu.

Profiad y Claf

Yn ystod y gwiriad ansawdd dilynol, roedd yn galonogol gweld bod y bwrdd iechyd wedi gwneud pob un o'r gwelliannau o ran profiad y claf a restrwyd yn ei gynllun gwella yn dilyn yr arolygiad diwethaf, ac wedi eu cynnal er mwyn gwella profiad y claf.

Gwelliannau yr oedd eu hangen yn dilyn yr arolygiad diwethaf.

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn ystod yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

- Dylai'r bwrdd iechyd ystyried penodi aelod o'r staff yn hyrwyddwr gofalwyr i gefnogi cleifion â'r cyfrifoldeb hwn, ac ystyried a oes digon o wybodaeth ar gael yn yr ardal aros i ofalwyr.
- Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff sy'n gweithredu fel hebryngwr wedi cael hyfforddiant priodol a'i fod yn hyrwyddo'r gwasanaeth hebryngwr i gleifion.
- Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r daflen wybodaeth i gleifion er mwyn sicrhau ei bod yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf a mwyaf perthnasol.
- Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y gall pob claf, gan gynnwys cleifion byddar neu drwm eu clyw, ddefnyddio'r system apwyntiadau yn hawdd.
- Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod proses gadarn ar waith ar gyfer rheoli llythyrau sy'n dod i mewn er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â phob cais yn amserol.
- Dylai'r bwrdd iechyd ystyried y trefniadau ar gyfer clinigau arbenigol yn y practis, er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion cleifion unigol.
- Dylai'r bwrdd iechyd arddangos gwybodaeth am y Cyngor Iechyd Cymuned Lleol a'r manylion cyswllt.

Y camau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella dyddiedig 21 Tachwedd 2018:

- Bydd rheolwr y practis yn cyflawni rôl yr hyrwyddwr gofalwyr i ddechrau.
- Nodwyd hyfforddiant i hebryngwyr. Trefniadau ar waith i nodi dyddiad addas er mwyn galluogi'r aelodau perthnasol o'r staff i'w fynychu. Ar ôl i'r hyfforddiant gael i gwblhau, caiff yr arwyddion yn y practis eu diweddarau er mwyn hyrwyddo'r gwasanaeth hebrwng hwn.

-
- Roedd y bwrdd iechyd wedi adolygu'r daflen wybodaeth i gleifion yn ystod y broses drosglwyddo.
 - Rhoddodd y bwrdd iechyd fanylion y gwasanaethau dehongli laith Arwyddion Prydain i'r practis, a hysbyswyd pob aelod o'r staff amdanynt. Caiff gwybodaeth am y gwasanaethau dehongli laith Arwyddion Prydain ei harddangos i gleifion yn yr ardal aros. Gall cleifion hefyd drefnu apwyntiadau gan ddefnyddio Fy Iechyd Ar-lein¹. Mae cynghorwyr nam ar y synhwyrâu y bwrdd iechyd wedi cael hyfforddiant pellach ym maes nam ar y synhwyrâu, ac mae posteri wedi'u harddangos yn y practis. Mae pecyn cymorth hefyd ar gael yn y practis i'r staff ei ddefnyddio fel y bo'n briodol.
 - Roedd y bwrdd iechyd wedi sicrhau bod gan y practis system ar waith ar gyfer monitro unrhyw llythyrau a dderbynnir, a gweithredu arnynt. Gwnaed hyn yn ddyddiol gan feddyg teulu, ac anfonwyd unrhyw gamau yr oedd angen eu cymryd at dîm y dderbynfa fel tasgau y gellir eu harchwilio. Byddai archwiliadau parhaus yn cael eu cynnal. Roedd y bwrdd iechyd hefyd wedi datblygu mesur wrth gefn gyda phractis arall a reolir gan y bwrdd iechyd, er mwyn sicrhau y gellir adolygu llythyrau a dderbynnir o bell, er mwyn osgoi unrhyw oedi cyn gweithredu.
 - Cadarnhaodd y bwrdd iechyd fod y practis yn cynnig nifer o wasanaethau / clinigau arbenigol. Fodd bynnag, nodwyd y dylid cynnal proses fwy ffurfiol o nodi pa wasanaethau yr oedd eu hangen ar gleifion ac yr hoffent eu gweld yn cael eu cynnig yn y practis. Cadarnhaodd y bwrdd iechyd y byddai'r practis yn rhan o brosiect parhaus y mae'r bwrdd iechyd yn gweithio arno gyda rhwydwaith o Bractisau a Reolir yn Ardal Orllewinol Gogledd Cymru. Nod y prosiect yw nodi pa wasanaethau a gynigir gan bractisau a reolir gan y bwrdd iechyd.
 - Yn ystod yr arolygiad gwreiddiol yn 2018, roedd y practis yn arddangos gwybodaeth a manylion cyswllt y Cyngor Iechyd Cymuned lleol.

Yr hyn a welsom yn ystod y gwiriad dilynol

Wrth adolygu'r dystiolaeth ac yn ystod yr alwad ddilynol, gwnaethom nodi'r canlynol:

- Cadarnhawyd bod rheolwr y practis a dirprwy reolwr y practis bellach yn rhannu rôl yr hyrwyddwr gofalwyr. Hefyd, cawsom gopïau o'r wybodaeth sydd ar gael i ofalwyr yn y practis. Dywedwyd wrthym hefyd y bydd rhagor o wybodaeth i ofalwyr ar gael ar wefan y practis.

¹ Prosiect cenedlaethol wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru i helpu i wella gofal cleifion yw **Fy Iechyd Ar-lein**. Mae'n galluogi cleifion i gyflawni rhai tasgau iechyd yn ddiogel ar y we.

-
- Mae pob aelod o staff y dderbynfa wedi cael hyfforddiant i hebryngwyr erbyn hyn, a dywedwyd wrthym eu bod yn hyderus eu bod yn gymwys i hebrwng cleifion. Dywedwyd wrthym hefyd fod yr arwyddion yn y practis wedi cael eu diweddarau er mwyn hysbysu cleifion am y gwasanaeth hwn. Yn ystod yr alwad fideo, dywedwyd wrthym os caiff claf gynnig hebryngwr, y caiff hynny ei gofnodi yn nodiadau'r claf.
 - Gwelsom fod y daflen wybodaeth i gleifion yn gyfredol ac yn cynnwys y manylion diweddaraf o ran staff. Gwelsom hefyd fod y daflen wybodaeth i gleifion ar gael yn ddwyieithog.
 - Cadarnhawyd gennym fod y wybodaeth am y gwasanaethau dehongli laith Arwyddion Prydain a nam ar y synhwyrau yn gyfredol ac yn cael ei harddangos i gleifion.
 - Gwelsom fod tîm o weinyddwyr yn y prif bractis yng Nghricieth yn gyfrifol am reoli'r llythyrau a dderbynnir. Dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff sy'n delio â llythyrau a dderbynnir wedi cael yr hyfforddiant priodol.
 - Gwelsom fod y practis wedi cyflwyno sesiwn fferyllydd a'i fod yn parhau i ddarparu clinigau ffisiotherapi arbenigol. Dywedwyd wrthym fod y practis wrthi'n datblygu Tîm Adnoddau Cymunedol². Dywedwyd wrthym hefyd fod y practis yn bwriadu rhoi mynediad i gleifion i wasanaethau fflebotomi yn Ysbyty Cymunedol Alltwen. Mae'r practis yn defnyddio Uwch-ymarferwyr Parafeddygol³ i gefnogi meddygon teulu â gwasanaethau ymweliadau cartref. Dywedwyd wrthym y bydd Cydymaith Meddygol⁴ yn dechrau gweithio yn y practis ddiwedd mis Ebrill 2021. Dywedwyd wrthym hefyd yn ystod yr alwad y gall cleifion fynd i glinigau yn y prif bractis yng Nghricieth.
 - Cawsom wybod bod manylion cyswllt a gwybodaeth am y Cyngor Iechyd Cymuned lleol yn dal i gael eu harddangos yn y practis.

² Mae **timau adnoddau cymunedol** yn rhan o raglen strategol ehangach i gynnig gofal integredig gwell i bobl yn agosach at eu cartrefi a'u cymunedau.

³ Mae **uwch-ymarferwyr parafeddygol** yn cynnig lefel uchel o sgiliau clinigol er mwyn helpu cleifion a chefnogi cydweithwyr.

⁴ Mae **cymdeithion meddygol** yn weithwyr gofal iechyd cyffredinol sydd wedi cael hyfforddiant meddygol, sy'n gweithio ochr yn ochr â meddygon ac yn rhoi gofal meddygol fel rhan annatod o dîm amlddisgyblaethol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Ers yr arolygiad diwethaf, roedd yn galonogol gweld bod y bwrdd iechyd wedi cymryd camau i wella'r prosesau a'r gweithdrefnau i gefnogi gofal diogel ac effeithiol, a bod y staff yn ymrwymedig i ddarparu hyn.

Gwelliannau yr oedd eu hangen yn dilyn yr arolygiad diwethaf

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn ystod yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

- Rhaid i'r bwrdd iechyd wella diogelwch adeilad y practis er mwyn atal mynediad anawdurdodedig.
- Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan yr ystafelloedd triniaeth loriau priodol er mwyn sicrhau y cânt eu glanhau'n effeithiol ac yn drylwyr a bod ganddynt finiau pedal troed priodol i hyrwyddo gweithdrefnau rheoli heintiau effeithiol.
- Dylai'r bwrdd iechyd adolygu cofnodion hyfforddiant y staff er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol ar sut i ddsbarthu meddyginiaethau yn ddiogel.
- Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cyffuriau a'r offer sydd i'w defnyddio mewn argyfwng yn cael eu storio'n ddiogel er mwyn atal unrhyw fynediad anawdurdodedig.
- Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau o bwys a digwyddiadau yn ymwneud â diogelwch eu rhannu â phob aelod o'r staff yn y practis a'u trafod ganddynt.
- Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff rhaglen o archwiliadau ei rhoi ar waith i ddangos bod gofal diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu i gleifion.
- Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cofnodion cleifion eu cadw'n gyson mewn perthynas â'r canlynol:
 - Rhaid cysylltu meddyginiaeth â chyflwr
 - Dylid cofnodi bod gwasanaeth hebryngwr wedi'i gynnig a ph'un a gafodd wrthod.
 - Tystiolaeth o adolygiadau o feddyginiaeth a/neu'r rhesymau dros Iroddadwy
 - Y cyfiawnhad a'r rheswm dros beidio â dilyn canllawiau arfer gorau

-
- Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr aelodau o'r staff sy'n gyfrifol am grynhoi cofnodion cleifion wedi cael hyfforddiant perthnasol ac y cynhelir trosolwg clinigol priodol.

Y camau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella dyddiedig 21 Tachwedd 2018:

- Cadarnhaodd y bwrdd iechyd ar ddiwrnod yr arolygiad fod diogelwch y practis wedi'i wella a bod pob aelod o'r staff wedi'i hysbysu am hyn.
- Cadarnhaodd y bwrdd iechyd y byddai adran ystadau'r bwrdd iechyd yn gosod lloriau newydd yn y ddwy ystafell i feddygon teulu er mwyn cyrraedd safonau rheoli heintiau cyfredol. Cadarnhaodd y bwrdd iechyd hefyd fod biniau gwastraff clinigol nad oes angen cyffwrdd â nhw i'w hagor wedi'u harchebu.
- Cadarnhaodd y bwrdd iechyd fod cofnodion hyfforddiant ym maes dosbarthu meddyginiaeth ar gael yn ffeiliau pob aelod o'r staff.
- Cadarnhaodd y bwrdd iechyd fod troli cyfarpar brys wedi'i archebu. Yn y cyfamser, cadarnhawyd y byddai pob claf yn cael ei hebrwng i'r ystafelloedd triniaeth ac oddi yno fel na allant gael gafael ar y troli cyfarpar brys. Cadarnhaodd y bwrdd iechyd ei fod yn aros i'r troli newydd gael ei ddosbarthu.
- Cadarnhaodd y bwrdd iechyd fod proses ar waith ar gyfer sicrhau y caiff digwyddiadau o bwys eu trafod. Cyfarfodydd tîm yn y practis fydd y fforwm ar gyfer rhannu'r dystiolaeth hon, a chadarnhaodd y bwrdd iechyd fod y broses hon eisoes wedi dechrau.
- Comisiynodd y bwrdd iechyd wedi Gyngorydd Annibynnol sy'n Feddyg Teulu i archwilio nodiadau clinigol pob aelod o'r staff clinigol yn y practis. Caiff canlyniadau'r archwiliadau hyn eu rhannu â'r tîm clinigol at ddibenion dysgu yn ôl yr angen.
- O ran yr adolygiad gan y cynghorydd annibynnol sy'n feddyg teulu a nodir uchod, cadarnhawyd y byddai unrhyw feddyginiaeth sy'n gysylltiedig â chyflwr, y cynnig i gael hebryngwr, adolygiadau o feddyginiaeth, ynghyd ag unrhyw gyfiawnhad dros beidio â dilyn canllawiau arfer da, wedi cael eu harchwilio hefyd. Dywedwyd wrthym fod yr archwiliadau hyn wedi'u cynnwys yn y cylch gorchwyl.
- Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi aelod o'r staff a fydd yn cael hyfforddiant perthnasol ar grynhoi nodiadau clinigol. Bydd system archwilio yn cael ei sefydlu hefyd, er mwyn i'r broses hon gael ei monitro gan feddygon teulu. Cadarnhaodd

y bwrdd iechyd mai meddyg teulu fydd yn crynhoi nodiadau nes y bydd yr hyfforddiant hwn wedi'i gwblhau.

Yr hyn a welsom yn ystod y gwiriad dilynol

Wrth adolygu'r dystiolaeth ac yn ystod yr alwad ddilynol, gwnaethom nodi'r canlynol:

- Dywedwyd wrthym fod y drws cefn ar glo bob amser a bod y drws yn cael ei archwilio'n rheolaidd. Yn ogystal, dywedwyd wrthym fod y drws ffrynt ar glo bob amser hefyd.
- Gwelsom dystiolaeth ffotograffig i ddangos bod y lloriau yn y ddwy ystafell ymgynghori i feddygon teulu wedi cael eu hadnewyddu. Dywedwyd wrthym hefyd fod y practis wedi nodi difrod i'r llawr mewn ystafell arall yn ddiweddar. Dywedwyd wrthym fod trefniadau eisoes wedi'u rhoi ar waith i adnewyddu'r llawr a bod y practis yn aros am ddyfynbris am y gwaith hwn. At hyn, dywedwyd wrthym fod cynlluniau ar waith i godi'r teils carped yn ardaloedd y cyntedd, y dderbynfa a'r gegin, a gosod llawr priodol yn eu lle. Cawsom gadarnhad hefyd fod biniau gwastraff clinigol nad oes angen cyffwrdd â nhw i'w hagor bellach ar gael.
- Cadarnhaodd y bwrdd iechyd fod cofnodion hyfforddiant ym maes dosbarthu meddyginiaeth yn cael eu cadw yn ffeiliau pob aelod o'r staff. Dywedwyd wrthym fod cadw cofnodion o hyfforddiant ym maes dosbarthu meddyginiaethau yn rhan o ofynion blynyddol y cynllun ansawdd gwasanaethau dosbarthu meddyginiaeth.
- Dywedwyd wrthym fod troli diogel newydd ar gyfer cyffuriau a chyfarpar brys wedi cyrraedd.
- Dywedwyd wrthym fod digwyddiadau arwyddocaol yn cael eu trafod â'r meddyg teulu arweiniol bob wythnos yn ystod y cyfarfodydd rheoli. Caiff unrhyw wersi a ddysgir o'r digwyddiadau hyn eu rhannu â'r staff yn y cyfarfodydd tîm.
- Dywedwyd wrthym fod rhaglen o archwiliadau wedi cael ei rhoi ar waith yn y practis.
- Dywedwyd wrthym fod cofnodion y cleifion yn gyson ac yn nodi os cynigiwyd hebryngwr i'r claf. Caiff meddyginiaeth bob amser ei chysylltu â chyflwr, ac mae adolygiadau o feddyginiaeth yn mynd rhagddynt. Mae pob meddyg teulu yn y practis yn ymwybodol o bwysigrwydd cofnodi'r cyfiawnhad a'r rhesymau dros beidio â dilyn canllawiau arfer gorau. Dywedwyd wrthym fod y practis yn cyflogi fferyllwyr a thechnegydd fferyllfa, sy'n cynnal y rhan fwyaf o'r archwiliadau o feddyginiaeth, gyda chymorth meddyg teulu yn ôl yr angen.
- Dywedwyd wrthym fod dau aelod o'r staff gweinyddol yn gyfrifol am grynhai nodiadau cleifion. Cadarnhawyd bod y ddau aelod o'r staff wedi cael eu hyfforddi i wneud hyn, a'u bod wedi cael goruchwyliaeth glinigol i ddechrau. Dywedwyd wrthym nad oes unrhyw brosesau monitro ffurfiol ar waith ar gyfer y broses o

grynhai cofnodion cleifion, ond cadarnhawyd bod trafodaethau'n cael eu cynnal ynglŷn â sefydlu trefn fonitro reolaidd.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Roedd yn galonogol gweld bod y bwrdd iechyd a'r staff wedi gweithio'n galed ers yr arolygiad diwethaf, a bod gwelliannau wedi'u gwneud ym mhob un o'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn flaenorol mewn perthynas ag ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.

Gwelliannau yr oedd eu hangen yn dilyn yr arolygiad diwethaf

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn ystod yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

- Dylai'r bwrdd iechyd ystyried trefniadau rheoli'r practis er mwyn sicrhau bod y staff yn cael cymorth priodol i gyflawni eu rolau.
- Dylai'r bwrdd iechyd ystyried trefniadau llywodraethu cyffredinol y practis yn dilyn y newid i'r cyfrifoldeb rheoli er mwyn sicrhau bod prosesau rheoli a phrosesau clinigol cadarn ar waith.
- Dylai'r bwrdd iechyd ddatblygu cynllun datblygu practis.
- Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant sy'n briodol i'w rolau ac y caiff hyfforddiant parhaus ei reoli'n amserol yn y dyfodol.

Y camau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella dyddiedig 21 Tachwedd 2018:

- Cadarnhaodd y bwrdd iechyd ei fod wedi gwneud trefniadau i'r staff gael cymorth priodol. Ymdriniwyd â hyn y tu allan i'r broses arolygu fel y cyfeirir ato yn adroddiad yr arolygiad.
- Mae'r bwrdd iechyd yn cefnogi trefniadau llywodraethu'r practis drwy ddarparu cymorth tîm llywodraethu clinigol y bwrdd iechyd a phrif nyrs datblygu gofal sylfaenol. Cadarnhawyd bod y bwrdd iechyd yn ymweld â'r practis o leiaf ddwywaith yr wythnos. Cadarnhaodd y bwrdd iechyd y bydd ymweliadau rheolaidd yn parhau nes y bydd y trefniadau llywodraethu ar waith. Wedi hynny, bydd yr ymweliadau'n cael eu cynnal bob chwarter.

-
- Cadarnhaodd y bwrdd iechyd ei fod yn cefnogi'r practis i ddatblygu cynllun datblygu'r practis.
 - Cadarnhaodd y bwrdd iechyd y gall pob aelod o'r staff gael yr hyfforddiant gorfodol gofynnol. Mae pob aelod o'r staff wedi cael arfarniad, a thrafodwyd hyfforddiant fel rhan o'r broses arfarnu. Mae pob aelod o'r staff yn gweithio tuag at gwblhau'r holl hyfforddiant gorfodol.

Yr hyn a welsom yn ystod y gwiriad dilynol

Wrth adolygu'r dystiolaeth ac yn ystod yr alwad ddilynol, gwnaethom nodi'r canlynol:

- Cadarnhaodd dirprwy reolwr y practis fod y staff wedi cael eu cefnogi'n briodol yn eu rolau, a bod strwythur clir ar waith ers i'r practis gael ei drosglwyddo i reolaeth y bwrdd iechyd.
- Cadarnhawyd bod y bwrdd iechyd wedi cefnogi'r practis i atgyfnerthu ei drefniadau llywodraethu. Dywedwyd wrthym nad yw'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ymweld â'r practis bob wythnos mwyach. Bydd y practis yn galw ar y bwrdd iechyd pan fydd angen iddo wneud hynny. Cadarnhaodd y dirprwy reolwr fod y bwrdd iechyd yn ymateb yn syth i unrhyw ymholiadau. Cadarnhaodd y dirprwy reolwr ei bod yn teimlo y caiff ei chefnogi'n dda iawn a bod elfen rheoli ac arwain y practis wedi gwella'n sylweddol ers i'r bwrdd iechyd gymryd cyfrifoldeb dros hyn.
- Gwelsom fod y practis wedi llunio cynllun datblygu'r practis.
- Cadarnhawyd bod gan bob aelod o staff y practis fynediad at yr hwb hyfforddiant ar-lein, a'i fod yn gwybod pa hyfforddiant gorfodol yr oedd angen iddo ei gwblhau. Cadarnhaodd dirprwy reolwr y practis fod ystadegau hyfforddiant gorfodol y practis yn dangos cyfradd cydymffurfiaeth o 87% ers 16 Mawrth 2021. Hefyd, dywedwyd wrthym fod y mwyafrif o staff y practis wedi cael arfarniad blynyddol, a bod cynlluniau ar waith i'r staff a oedd yn weddill gael eu harfarnu.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.